

# Bwletin Lles Tymor yr Haf / Summer Term Welfare Bulletin

## Mae'r Gwanwyn wedi cyrraedd!

Gyda'r dydd yn ymestyn a theimlad bod y gwanwyn yn cydio, mae'r cyngor ysgol wedi parhau gyda'u gwaith o ymateb i hiliaeth a chasineb. Bellach mae fideo wedi ei greu gan y cyngor i addysgu pobl ifanc am droseddau casineb a sut i ymateb iddynt ar ein safleoedd cymdeithasol.



Mae'r ysgol wedi cael ei hadnabod am ei gwaith braenaru yn y maes yma. Ysgol Uwchradd Bodedern ydi'r unig ysgol yn y rhanbarth sydd â llysgenhadon i'r cynllun 'Arweinwyr heddiw' i'r elusen 'Show Racism The Red Card'. I ddiolch am eu gwaith mae Logan a Harrison o flwyddyn 11 wedi cael eu gwahodd i gynhadledd yr elusen yng ngwesty St. George, Llandudno. Llongyfarchiadau!

Cofiwch bod gan bawb yn Ysgol Uwchradd Bodedern yr hawl i gael eu parchu, yr hawl i wneud cwyn a'r hawl i gael eu clywed. Os oes materion o aflonyddu neu bryder lles yn codi, cysylltwch â phennaeth blwyddyn eich plentyn drwy ddulliau arferol yr ysgol:

Blwyddyn 7: Mr John Arwel Jones  
Blwyddyn 8: Mr Paul Magee  
Blwyddyn 9: Mr Brandon Rickards  
Blwyddyn 10: Mr Sam Ellis  
Blwyddyn 11: Mr Carwyn Owen  
Blwyddyn 12 a 13: Ms Awel Glyn

Diolch hefyd i'r cyngor am drefnu diwrnodau codi arian ar gyfer nifer o elusennau. Yn ystod tymor y Gwanwyn codwyd £189.50 ar gyfer ymgyrch elusennau DEC yn dilyn daeargrynfeydd yn Nhwrci a £307.06 ar gyfer Cancer Research UK. Bydd eu gwaith yn parhau wrth gynorthwyo i lunio polisïau a strategaethau yn yr ysgol, gan gynnwys datblygu dulliau i adnabod yr ymddygiad gwych a welir yn Ysgol Uwchradd Bodedern.

Mae 'perthyn' a 'chydreddoldeb' yn allweddol i unrhyw sefydliad. I weithredu'r ymdeimlad hwn ym Moded, disgwylir i bob disgybl wisgo gwisg ysgol lawn bob dydd. Gweler rhestr ddisgwylidig o'r wisg ysgol ar ein gwefan:

<https://www.ysgoluwchraddbodedern.org/cy/disgyblion/gwisg-ysgol>

COFIWCH AM Y BANC GWISG YSGOL OS YDYCH ANGEN CYMORTH.

## Spring is here!

With the evenings becoming longer and the feeling of spring arriving at last, the school council have carried on with their tireless work in tackling racism and hatred. The council have completed producing a video to inform and educate young people about hate crime and how to respond to such acts. The video can be viewed on our social media sites.



The school has been recognised for our pioneering work in this field and have been chosen as the only school in North West Wales who have 'Future leaders' ambassadors for the charity 'Show Racism the Red Card'. To thank them for their work, Logan and Harrison from year 11 have been invited to the charity's conference at the St. George Hotel in Llandudno. Congratulations!

Remember that everyone at Ysgol Uwchradd Bodedern has the right to be respected, the right to make a complaint and the right to be heard. If there are any welfare concerns of bullying, please contact the head of year through the usual school communication channels:

Year 7: Mr John Arwel Jones  
Year 8: Mr Paul Magee  
Year 9: Mr Brandon Rickards  
Year 10: Mr Sam Ellis  
Year 11: Mr Carwyn Owen  
Year 12 a 13: Ms Awel Glyn

A big thank you to the school council for organising fundraising days towards a number of charities. During the spring term the school raised £189.50 for the DEC campaign to raise funds for survivors of the Turkish earthquake and £307.06 for Cancer Research UK, their work will continue by supporting the school in reviewing policies and school strategies, including ways to recognise the great behaviour of our pupils.

Belonging and equality is key for any organisation. To implement these values in Boded, we ask that all pupils wear a full school uniform every day. The required uniform list may be seen on our school website:

<https://www.ysgoluwchraddbodedern.org/en/pupils/school-uniform>

KEEP OUR SCHOOL UNIFORM BANK IN MIND, IF YOU NEED SUPPORT.